

## Cynllun Cartrefi Iach

Mae'r cynllun Cartrefi Iach yn cael ei weithredu gan y South East Wales Energy Agency. Mae'n darparu cyngor ar arbed ynni ac yn dosbarthu grantiau ar gyfer insiwleiddio eu tai i bobl sy'n cael trafferth cadw eu tai yn gynnes yng Nghasnewydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr.

Mae sesiynau briffio am ddim hefyd ar gael i weithwyr rheng flaen sy'n gweithio i'r cyngor, ym maes iechyd, neu sy'n gwneud gwaith cymunedol neu wirfoddol yn yr awdurdodau hyn. Mae'r sesiynau hyn yn trafod effeithiau tlodi tanwydd, beth y gellir ei wneud i leihau biliau tanwydd a'r grantiau sydd ar gael.

*"Roedd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol a bydd o fudd i'm cymuned"*  
Adborth am yr hyfforddiant i weithwyr allweddol

Bu i Mr S o Rogerston, Casnewydd, alw Cartrefi Iach ar ôl gweld rhif rhadffôn yn y papur lleol. Yn dilyn arolwg am ddim lle nad oedd rhaid ymwrymo i ddim, dywedodd y gweithwyr wrth Mr S pe bai'n insiwleiddio ei lofft a defnyddio bylbiau arbed ynni, gallai arbed hyd at £150 y flwyddyn (yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni). Cafodd Mr S ei lofft wedi'i insiwleiddio am ddim gan ei fod yn cael lwfans byw i'r anabl.

*"Ychydig o wythnosau yn unig a gymerodd yr holl broses {o insiwleiddio'r tŷ} ac roedd safon y gwaith yn dda iawn. Byddwn yn argymhell eraill i fanteisio ar y gwasanaethau sydd ar gael"*  
Mr S, Casnewydd

Cafodd Mr J o'r Fenni insiwleiddio'i waliau ceudod o dan y cynllun Cartrefi Iach. Gan ei fod yn derbyn Credyd Pensiwn a Budd-dal Tai cafodd y gwaith ei wneud am ddim iddo. Roedd yn fodlon iawn gyda'r help a gafodd a gallai arbed hyd at £120 y flwyddyn ar ei filiau gwresogi.

*"Roedd y cynllun yn wych am arbed arian a chynhesu'r cartref. Roedd y staff yn gwrtais iawn, yn canolbwyntio ar eu gwaith ac yn glanhau ar eu holau. Byddwn yn argymhell y cynllun yn fawr"*  
Mr J, Y Fenni

## Prosiect insiwleiddio cartefi Cyngor Sir Casnewydd

Bydd preswylwyr 68 o dai cyngor yn ardal St Julians yng Nghasnewydd yn mwynhau gaeaf cynhesach eleni, diolch i brosiect £500,000 wedi ei ariannu gan Gyngor Sir Casnewydd.

Gall insiwleiddio tai sydd â waliau solet fod yn broses gymhleth. Nid yn unig y mae waliau solet yn gadael i wres ddianc o'r cartref yn haws na waliau ceudod modern ond gan nad oes ceudod (neu 'wagle') ynddynt nid oes modd eu hinsiwleiddio drwy ddefnyddio technegau cyffredin i lenwi ceudodau. O ganlyniad, y tai sydd angen eu gwella fwyaf er mwyn arbed ynni yw'r rhai anoddaf eu trin.

Yr ateb yw rhoi haen ychwanegol o ddeunydd insiwleiddio ar y wal, un ai'n fewnol neu'n allanol. Yn St Julians, mae'r contractwyr yn defnyddio bwrdd insiwleiddio ffenolig, rhwyll gwydr ffeibr a chôt sgrim ar waliau allanol y tai. Gall y prosiect, a fydd yn dod i ben ganol fis Hydref, arbed hyd at £350 y flwyddyn i breswylwyr.

### **Pympiau Gwres o'r Awyr Cyngor Sir Fynwy**

Mae rhai o breswylwyr Great Oak yn Sir Fynwy yn elwa ar gartrefi cynhesach am lai o gost wedi i Gyngor Sir Fynwy osod pympiau gwres yn eu tai.

Cafodd pympiau gwres eu gosod ym mhump o fyngalos y cyngor yng Ngwanwyn 2006 a bu i'r unedau ymdopi'n dda gyda'r cyfnodau oer cynnar. Bydd y systemau rhad-ar-danwydd yn helpu preswylwyr hŷn i gynnal tymheredd iach a chyfforddus yn eu cartrefi. Roedd y tenantiaid wedi bod yn cwyno ers blynyddoedd bod y rheiddiaduron stôr a oedd ganddynt eisoes yn gostus i'w cadw a ddim yn cyhyrchu digon o wres. O ganlyniad, mae Cyngor Sir Fynwy wedi ymateb i'r cyfle drwy osod system sy'n rhatach i'w chadw ac yn fwy eco-gyfeillgar.

Mae'r pympiau gwres hyn yn cynhesu'r cartref drwy ddefnyddio tanwydd yn effeithlon. Yn y pympiau gwres aer-i-ddwr hyn, mae uned cywasgu electronig allanol (llun) yn tynnu gwres o'r aer tu allan a'i drosglwyddo i'r system gwres canolog confensiynol drwy goilliau poeth. Mae lefel y trydan sydd ei angen yn weddol isel; mae'r gwres sy'n cael ei gynhyrchu fel arfer tua tair gwaith yn fwy na'r ynni trydanol sy'n cael ei ddefnyddio i weithio'r pwmp gwres.

Mae pympiau gwres yn cynhyrchu lefel weddol isel o wres sy'n addas i gynnal tymheredd dros gyfnodau hir; mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol i breswylwyr hŷn sy'n treulio llawer o'u hamser yn y cartref. Mae gwres cyson ar dymheredd is hefyd yn golygu bod y rheiddiaduron ar dymheredd is, 50°C, sy'n lleihau'r risg o losgi. Yn ystod cyfnodau oer a chyda'r nos, mae trydan cyfradd isel yn cael ei ddefnyddio i helpu i gynhesu'r dwr. Bydd y systemau yn cael eu profi i'r eithaf y Gaeaf hwn a'r gobaith yw y byddant yn parhau i weithio'n effeithiol i gadw'r oerfel allan, lleihau gollyngiadau carbon a darparu cartrefi mwy cyfforddus.